

Cyngor Tref Pwllheli

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 7.00y.h. NOS IAU 2
EBRILL 2015 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELLI.

COPI DRAFFT

Cof;-0104/15 Presennol.

.....

Y Maer, Cyng. M Sol Owen.

Dirprwy Faer, Cyng. Henry Williams.

Cyng.E J Hughes,Elfed Gruffydd,J G Owen, Alan Williams,Parch Ioan Gruffydd, Iwan Edgar.

Cof;-0204/15 Ymddiheuriadau.

.....

Cyng. Mici Plwm, Eurig Evans, Dewi O Jones, Eric Wyn Roberts (gwaeledd) M Parry,

Jonathan Roberts, Myrddin Owen.

Cof;-0304/15 Datgan Diddordeb.

.....

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb yn y materion oedd i'w trafod yn y cyfarfod.

Cof;-0404/15 Gair gan Y Maer.

.....

Cyfeiriwyd at brofedigaeth y Ddirprwy Faeres yn colli ei thad a chydymdeimlwyd a hi yn y ffordd arferol.

Yr oedd pawb yn falch o ddeall fod y Cyng. Eric Roberts bellach allan o'r Ysbyty a dymunwyd iddo wellhad llwyr a buan gan edrych ymlaen am gael ei bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor unwaith eto.

Cof;-0504/15 Materion Cyfansoddiadol a Staff.

.....

Nid oedd unrhyw fater i'w drafod.

Cyngor Tref Pwllheli

Cof;-0604/15 Aelodau'r Cyhoedd yn bresennol.

.....
Nid oedd unrhyw Aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

Cof;-0704/15 Cadarnhau Cofnodion Mis Mawrth.

.....
Cadarnhawyd cofnodion Mis Mawrth fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

Cof;-0804/15 Materion yn codi o'r Cofnodion try ohebiaeth.

.....
a) Maes Parcio Y Maes

Mewn ymateb i ymholiad y Cyngor Tref ynglŷn â llenwi gwlliau dŵr glaw gyda tharmac yn hytrach na ei trwsio ,ymateb y Cyngor Sir oedd ei bod wedi gwneud sawl archwiliad ym mhob tywydd a chredir fod y gwaith tros dro o safon dderbyniol, derbynnir fod angen rhoi sylw i'r sustem "eco drain a bydd hyn yn digwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf

PENDERFYNIAD;;-Derbyn yr wybodaeth

b) Gorchymyn Parcio Newydd

Derbyniwyd ateb i e-bost y Cyngor Tref yn cadarnhau nodi gwrthwynebiad Y Cyngor Tref ar hyn o bryd,
Er mwyn gallu egluro ac ateb y cwestiynau a godwyd mai Swyddogion y Cyngor Sir yn fodlon cyfarfod i drafod mewn manylder, disgwylir i'r Cyngor Sir gysylltu i gynnig dyddiadau hwylus i bawb..

PENDERFYNIAD;;-Derbyn yr wybodaeth ac aros am gysylltiad pellach gan y Cyngor Sir.

c)Maes Parcio Stryd Penlan

Mewn ateb i ohebiaeth y Cyngor Tref eglurodd Swyddog o Gyngor Gwynedd ei fod yn derbyn bod angen ail edrych ar ddarpariaeth parcio ar gyfer deiliaid bathodyn glas ac mae

Cyngor Tref Pwllheli

hyn yn cynnwys pob maes parcio arall yn y Dref .Cadarnheir fod hyn yn digwydd fel rhan o'r gwaith adolygiad parcio oddi ar y stryd er mwyn sicrhau fod pob bae parcio yn cydymffurfio ac yn ddiogel ar gyfer deiliaid bathodyn glas, Mae'r swyddog yn awyddus o gael trafodaeth gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Tref a threfnir hyn maes o law.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth ac aros am gysylltiad pellach gan y Cyngor Sir.

Cof;- 0904/15 Ceisiadau Cynllunio.

-
- a) Cais C15/0228/45/HY
Gosod amrywiol arwyddion goleuedig a dadleoedig
Cyn safle L S Carpets Pen Cob.

PENDERFYNIAD Ni does gan y C cyngor unrhyw wrthwynebiad i arwyddion di oleuedig ond mae gwrthwynebiad i arwyddion sydd wedi ei goleuo oddi mewn, a dim gwrthwynebiad i'r rhai sydd yn cael ei goleuo oddi allan, mae'r Cyngor wedi sefyll yn erbyn y rhai sydd yn cael ei goleuo oddi mewn ers blynyddoedd bellach ac mae yn bwysig cadw delwedd y Dref...

- b) Cais C15/.0253/45/HY
Paentio hysbyseb ar flaen eiddo
Taro Deg, Lon Dywod.

PENDERFYNIAD;-Dim gwrthwynebiad.

- c) Cais C15/0282/45/LL
Adeiladu ty annedd gyda modurdy cysylltiol a ffurfio mynedfa a safleoedd parcio a throi ynghyd a gwaith cysylltiol
Villa Fioretta, Ffordd yr Ala,

PENDERFYNIAD;- Dim gwrthwynebiad.

Cyngor Tref Pwllheli

Cof;-1004/15 Llifogydd.

.....

Nid oedd unrhyw beth i'w drafod.

Cof;- 1104/15 Cofeb Cynan

.....

Adroddodd y Clerc fod y gwaith bellach wedi ei gomisiynu, ac felly aros am wybodaeth ychwanegol

PENDERFYNIAD;- Derbyn y wybodaeth

Cof;-1204/15 Treth Gyngor.

.....

Adroddwyd gan Aelod ei fod wedi arfer codi'r cwestiwn o'r gymhariaeth rhwng maint y dretha'r gwasanaeth sydd ar gael. Hyd yn oed heddiw gwelir cynnydd o 4.5% a'r llywodraeth yn honni fod chwyddiant i lawr i ddim. Nid ei fwriad oedd beio lefel treth Gyngor Gwynedd mae'r cwbl bellach wedi ei basio a'i selio.

Yn ddiddorol ymddangosodd llythyr yn y wasg gan Aelod o'r Cynulliad Cendlaetholdan y teitl "Taxes will surely rise again".

Tra bod cyfeiriad at benderfyniadau anodd i Gyngorau ar draws Cymru pan mae llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar y cymorth ariannol a fydd ar gael ar gyfer y flwyddyn bresennol a 'r swm ychwanegol fydd yn rhaid i deuluoedd wynebu i gynnal y gwasanaethau.

Ers blwyddyn 2010 mae treth Gyngor band D wedi cynyddu o £149 tra mae'r dreth yn y deyrnas unedig wedi ei rhewi,

Yn Lloegr mae deddfu wedi bod i reoli codiadau afresymol a'r Cynghorau hynny wedi ei anogi i gadw'r codiadau i 2%

Mae cyfeiriad hefyd fod trethi Cynghorau Cymru wedi codi 1505 ers 1997 ond yng Ngwynedd cafwyd codiad o 24.95 yn 1996.

Y paragraff o bwys yw'r un sydd yn cyfeirio at y ffaith fod Llywodraeth Llafur Cymru wedi body n derbyn arian ychwanegol o'r trysorlys i allu rhewi trethi, ond fod Gweinidogion y Blaid Lafur yn y Cynulliad wedi gwrthod ymyrryd a hyn.

Cyngor Tref Pwllheli

Dau gwestiwn sydd yn codi,

1.Os oedd arian ychwanegol wedi dod o'r trysorlys i allu cadw trethi i lawr a hynny heb ddigwydd a ddefnyddiwyd yr arian i bwrpas arall?

2 Os defnyddiwyd yr arian i bwrpas arall a oedd yr arian hynny wedi ei rannu'n deg rhwng y siroedd?

PENDERFYNIAD; Diolch i'r Aelod am ei adroddiad ac anfon gair i Brif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn y ddau gwestiwn a godwyd.

Cof;- 1304/15 Marchnad Sul.

.....

Yn ôl yn 2007 bu i'r Cyngor gyda mwyafrif pleidlais gefnogi marchnad Sul yn gwerthu cynnyrch lleol,

Yn 2013 datganwyd pryderon fod y Farchnad bellach yn mynd y rhy debyg i'r Farchnad ar ddyddiau Mercher a chysylltwyd â Chyngor Gwynedd pryd hynny i ddatgan pryder, yr esboniad a gafwyd oedd bod cefnogaeth masnachwyr cynnyrch cartref wedi pylu a bod ymgais i ddenu mwy o stondinau crefftiau ac artistiaid lleol wedi methu.

Yn Mis mai 2013 anfonwyd gair at Gyngor Gwynedd i ofyn am gyfarfod ar y cyd gyda'r Gynrychiolaeth o gymdeithas y Masnachwyr, Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Tref (Cyng. Elfed Gruffydd, Maer Dirprwy Faer) ond ni fu cyfarfod.

PENDERFYNIAD;- Gan fod pryder fod y Farchnad yn rhy debyg i Farchnad Dydd Mercher ceisio eto drefnu cyfarfod gyda'r asiantaethau pethansol.

Cof;;- 1404/15 Cadwyn y Maer a chadwyn y Faeres..

.....

Sylwyd fod angen uwchraddio'r ddwy gadwyn i roi lle i fwy o enwau arnynt ac awgrymwyd fod gofyn emmydd lleol roi pris am wened y gwaith.

PENDERFYNIAD;- Yr oedd pawb yn gefnogol i'r syniad ac felly gofynnwyd i'r Maer wneud ymholiadau pellach.

Cyngor Tref Pwllheli

Cof;-1504/15 Dwr yn cronni ar y ffordd ger Y Mitre.

.....
Adroddwyd gan Aelod fod dŵr yn cronni yn y ffordd yn yr union le mae cerddwyr yn croesi'r., hyn wedi digwydd ar ôl ei ail wynebu yn dechrau'r flwyddyn 2014, mae'r contractwyr wedi bod yn ôl yn ceisio ei thrwsio ond yn amlwg nid ydynt wedi llwyddo. Adroddodd y Clerc ei fod fwy nag unwaith wedi tynnu sylw Cyngor Gwynedd i hyn ond nid ydynt hyd yma wedi gallu goroesi'r broblem.

PENDERFYNIAD;- Anfon at Gyngor Gwynedd i ddatgan cryn bryder nad yw yn amlwg fod unrhyw beth yn cymryd lle i'w datrys

Cof;-1604/15 Cais am gyfraniad ariannol,

.....
Derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol, ac adroddod y Clerc i'r Cyngor wenud cyfraniad o £1,000 yn 2013

PENDERFYNIAD;-Cyfrannu £1,000.

Cof;-1704/15 Ysbwriel yn ardal Lon Cob Bach

.....
Tynnwyd sylw fod ysbwriel yn casglu unwaith eto yn yr ardal yma, ac adroddodd y Clerc yn dilyn penderfyniad y Cyngor rhyw 2 fis yn ôl i gysylltu â Chadw Cymru'n Daclus nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb ar wahân i alwad ff.on gan swyddog yn dweud y byddai mewn cysylltiad yn fuan.

Ar yr un pryd datganwyd fod "fly tipping" yn cymryd lle yn y goedwig ger Talcymeau Mawr.

PENDERFYNIAD;- Cysylltu eto a Chadw Cymru'n Daclus a hefyd hysbysu perchnogion Talcymerau Mawr o' r hyn sydd yn cymryd lle yn ei eiddo.

Cyngor Tref Pwllheli

Cof;- 1804/15 Derbyniadau.

.....

Llog Banc	£5.06
Llog N S Bond	£3.19
Rhent Arced	£250.00
Rhent Arced	£250.00

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth

Cof;- 1904/15 Taliadau

£9.98	Euronics - Nwyddau Swyddfa	202647
£50.00	Mrs G Roberts	202648
£294.55	Cyllid y Wlad	202649
£331.92	Solomon Andrews	D. D.
£3325.80	Treth 2015/16 ar y Siambr	202651
£ 125.00	Tocyn Parcio Clerc	202652
£ 491.45	Dwr Cymru – Treth Dwr Siambr	202653
£ 9.01	Kon X Wales - Llun gopio	202654
£ 94.80	BNP Paribas - Les Llun gopiwr	D. D.
£ 719.28	Delwdd – cynnal a chadw'r Wefan	202655

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth a rhoi hawl i'r Clerc dalu yr oll o'r biliau

Caeedig.

Tendr llwybrau am y tair blynedd nesaf

Un tendr yn unig a ddaeth i law a bu i'r Cyngor ei derbyn.

Eiddo yn Stryd Penlan.

Gan nad oedd ymateb llawn wedi ei dderbyn oddi wrth Gyngor Gwynedd penderfynwyd rhoi'r mater ar raglen y cyfarfod nesaf.

Cyflog y Clerc

Cyngor Tref Pwllheli

Penderfynwyd rhoi codiad yng nghyflog y Clerc o 1.5%.

Daeth y cyfarfod i ben am;- 7.45 y.h.

Bydd rhaglen y cyfarfod nesaf yn cau 28 Ebrill 2015.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 7 Mai 2015
